

Ydych chi'n 'Arweinydd Cymdeithasol Newydd'?

Mae gennym gynnig datblygu ffres a chyffrous ar gyfer arweinwyr cymdeithasol newydd fel y rhai mewn cymunedau, elusennau a mentrau cymdeithasol.

Ydych chi'n angerddol dros ryddhau potensial pobl, cymunedau a sefydliadau? Ydych chi'n cael eich ysbrydoli gan gyfle i newid, ond yn rhwystredig gan yr her sydd ei hangen i gyrraedd yno? Ydych chi'n chwaraewr tîm sy'n mwynhau rhannu dysgu ag eraill?

Os felly, efallai yr hoffech chi ddarllen ymlaen!

Mae grwpiau bach o 'Arweinwyr Cymdeithasol Newydd' (ACN) yn dod at ei gilydd ar-lein i adeiladu cysylltiadau cydweithredol, rhannu dysgu a thyfu o ganlyniad i gyfres o weithdai strwythuredig a chysylltiadau wedi'u brocera.

At bwy yr anelir hwn?

Yn ddiweddar, efallai eich bod wedi dod yn 'arweinydd tîm', 'uwch weithiwr', 'rheolwr' neu ryw beth tebyg sy'n ymwneud ag arwain eraill? Efallai eich bod chi wedi bod yn arweinydd ers rhai blynyddoedd ac yn chwilio am syniadau ar sut i wneud pethau'n wahanol? P'un bynnag ydych chi, dylech fod yn rhywun sy'n chwilio am gyfle i ddysgu ochr yn ochr ag arweinwyr o'r un anian, sy'n meddwl yn ffres, sy'n cael eu gyrru gan werthoedd sy'n credu ym mhotensial pobl, ac sy'n anelu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Datblygwyd y fenter Arweinwyr Cymdeithasol Newydd gan Nick Sinclair, arweinydd cymdeithasol profiadol a Chyfarwyddwr sy'n gweithio i Gatalyddion Cymunedol CIC. Mae Nick yn cefnogi awdurdodau lleol i drawsnewid eu perthynas â chymunedau ac adeiladu ar gryfderau pobl sy'n aml yn cael eu gwrthio i'r cyrion gan systemau. Mae hefyd yn gadeirydd o elusen llawr gwlad a arweinir gan aelodau, a sefydlodd yn 2010.

Canlyniadau cymryd rhan

- Technegau, syniadau ac offer newydd i arwain a rheoli eraill yn hyderus.
- Gwybodaeth, technegau a chymhelliant newydd i gydweithio ag eraill, cefnogi newid systemau lleol, a gwella canlyniadau i bobl a chymunedau.
- Mynediad at gefnogaeth barhaus gan gymheiriaid gydag arweinwyr cymdeithasol newydd o'r un anian a chysylltiadau brocera ag uwch arweinwyr yn y sector cymdeithasol.

Strwythur/amlinelliad dysgu

Gwaith paratoadol / Adnoddau: Byddwch yn cael mynediad i gyfweiliadau sain unigryw gydag arweinwyr cymdeithasol a recordiwyd yn benodol ar gyfer y cwrs hwn, yn ogystal ag ystod amrywiol o destun i'w archwilio cyn a rhwng eich sesiynau.

Grŵp WhatsApp: Sefydlir grŵp WhatsApp wedi'i hwyluso er mwyn i chi allu cysylltu a rhannu gyda chyd-ddysgwyr trwy gydol y cwrs a thu hwnt.

Yr hyn a drafodwn

Sesiwn ar-lein wythnos 1: Dod i adnabod eich gilydd, clywed eich meddyliau (2 awr)

- Pwy ydych chi, pam rydych chi'n cymryd rhan a beth rydych chi'n gobeithio ei gael allan ohono? Byddwn yn clywed am yr hyn sy'n eich cymhell, eich straeon am bobl sydd wedi eich ysgogi a'ch ysbrydoli ac eiliadau sydd wedi llunio eich meddyliau.
- Eich meddyliau a'ch syniadau am y newidiadau mawr sy'n digwydd o ganlyniad i Covid-19 a thu hwnt.

Sesiwn ar-lein wythnos 2: Yr 'Arweinydd Cymdeithasol Newydd' mewn byd Rheoli Trafodol (2 awr)

- Beth mae'r termau "rheolaeth" ac "arweinyddiaeth" yn ei olygu mewn gwirionedd a sut y gallwch chi fod yn arweinydd trawsnewidiol mewn rôl sy'n gofyn am reolaeth drafodol.
- Sut i fod yn arweinydd pan ydych dan bwysau i gael canlyniadau a chyflawni targedau – sut i gael y cydbwysedd yn iawn gyda disgwyliadau cyllidwyr a chomisiynwyr.
- Technegau sy'n eich helpu i ddeall ac ysgogi'r rhai yr ydych yn eu harwain.
- Dulliau adeiladu tîm effeithiol a sut i feithrin diwylliant dysgu cydweithredol mewn timau.

Sesiwn ar-lein wythnos 3: Heriau Ymarferol 'Arweinwyr Cymdeithasol Newydd' (2 awr)

- Awgrymiadau ac offer arweinyddiaeth allweddol.
- Hyfforddiant, a sut y gall fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun eich gwaith.
- Sut i ddelio â thanberfformiad tra'n parhau i gynnal eich natur ddymunol eich hun.
- Sut i weithio gyda phobl nad ydych yn eu hoffi mewn gwirionedd.
- Sut i osgoi'r perygl o arferion gwaith mewn 'seilo'.

Sesiwn ar-lein wythnos 4: Arweinwyr Cymdeithasol Newydd o Newid (2 awr)

- Y gwahanol fathau o bŵer, ble mae'r pŵer, ble rydych chi a sut gallwch chi ei symud.
- Cydgynhyrchu a ffyrdd o gydgynhyrchu.
- Sut i herio'r sefyllfa fel y mae, gyda dewrder a dilysrwydd.
- Systemau rydych yn gweithio ynddynt, beth mae 'newid systemau' yn ei olygu, a sut i fwrw ymlaen â'i wneud.
- Grym adrodd straeon i achosi newid.

Sesiwn ar-lein 5: Myfyrio a Sefydlu (2 awr)

- Adolygu ac ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o sesiynau blaenorol.
- Myfyrio ar amcanion dysgu personol a'r camau nesaf.
- Archwilio syniadau ar gyfer sesiynau yn y dyfodol yn y Rhwydwaith NSL ehangach a ffyrdd y gallwn gadw mewn cysylltiad.

Faint fydd yn ei chostio a sut ydw i'n cymryd rhan?

£220 + TAW

[Cwblhewch ffurflen Mynegi Diddordeb](#), neu cysylltwch â newsocialleaders@communitycatalysts.co.uk.

Beth mae ein cyfranogwyr yn ei ddweud

Mae'n wahanol oherwydd...

- Mae'n caniatáu **rhyddid** a llif sgwrs
- Caniatáu ar gyfer **gwahanol drywydd** sgwrsio a mwy o **drafodaethau**
- Gofyn **cwestiynau da** i wthio pobl
- Yn **fyfyrionol**
- Yn cynnwys **dysgu rhagorol gan gyfoedion**
- Yn cynnig **cysylltiadau** traws gwlad
- Rhannu adnoddau **unigryw**

“Adnoddau da iawn - roedd cael ystod o ddeunyddiau darllen byr a hir yn ogystal â chyfweliadau gwrando yn golygu y gallwn ddewis sut a phryd i fynd drwyddynt, heb i'r broses deimlo'n drafferthus”

“Roedd yn ddefnyddiol iawn rhannu syniadau ag arweinwyr eraill ac yn rhyfeddol o galonogol gweld ein bod ni i gyd yn meddwl yn debyg i'n gilydd”

Mae pobl yn gwerthfawrogi...

- Y **gonestrwydd**
- Y gallu i roi a derbyn – **dwyochedd** y sesiynau a'r grŵp
- **Siarad** ag eraill sydd â phrofiadau a theimladau cyffredin (ond gwahanol).
- Y gefnogaeth bersonol a gynigiwyd gan y grŵp – **diogel a dim barnu**
- Y meddwl yn cael ei **ymestyn**
- Y doethineb a **rannwyd**.

Dywed pobl ei fod yn gyfle i...

- Gweld a **herio'r syndrom ffugiwr**
- **Dysgu a thyfu**
- Gweld **ffyrdd newydd** o ymdrin â phethau

“Mae pethau wedi newid yn fawr i mi o ganlyniad i roi cynnig ar y gwahanol ddulliau”

“Roedd fel therapi”

“Roedd pawb yn cyfranogi gyda'i gilydd yn dda - nid oedd yn teimlo fel bod neb yn beirniadu nac yn cwestiynu”

Dysgu gyda'n gilydd

“Daethom i adnabod ein gilydd ac adeiladu ar hynny”

“Fe wnaethon ni greu man diogel lle gallem rannu - yn agored ac yn onest”

“Mae gennym i gyd werthoedd a safbwyntiau a rennir, a daeth hyn â ni at ein gilydd er ein bod yn dod o wahanol sectorau a safbwyntiau”

“Mae gan y cwrs hwn gymaint o ddysgu cyfoethog fel y byddai'n amhosibl peidio â chael eich cymell i weithredu gan ryw elfen o'r cwrs”

Rhannu profiadau

“Cawsom i gyd gyfle i siarad a rhannu a rhoi barn.”

“Roedd yn gysur clywed bod cyfoedion wedi profi emosiynau a senarios tebyg, ac nad chi yw'r unig un efallai sy'n teimlo fod rhywbeth yn heriol”

“Mae cymryd amser i fyfyrrio a dysgu gyda phobl newydd sydd â phrofiadau gwahanol a rennir yn gyfle gwych”

“Rwyf wedi mwynhau'r cwrs hwn yn fawr o'r dechrau i'r diwedd, mae'n oleuedig, yn ysgogi'r meddwl, ond yn bwysicaf oll, yn gefnogol!”

Os ydych chi'n meddwl ymuno â ni mae pobl yn dweud...

“Mae'n sicr werth yr amser”

“Gwnewch yr amser i ddarllen y deunyddiau a chymryd rhan mewn trafodaethau, mae'n werthfawr!”

Ewch amdani!



ARLOESI TRWY
DDYSGU